

## BWRDD GWASANAETHAU LLEOL YNYS MÔN A GWYNEDD

Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 18 Medi, 2015  
am 2.00pm yng Ngholeg Menai, Bangor

**YN BRESENNOL:** Walis George, Grŵp Cynefin (**Cadeirydd**)  
Dawn Docx, Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru;  
Nigel Harrison, Heddlu Gogledd Cymru;  
Stephen Hughes, Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd  
Gogledd Cymru;  
Geraint Hughes, Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru  
**(Is-gadeirydd)**;  
Ffion Johnstone, Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi  
Cadwaladr/Iechyd Cyhoeddus Cymru;  
Siobhan Jones, Iechyd Cyhoeddus Cymru;  
Dr Gwynne Jones, Cyngor Sir Ynys Môn;  
Iwan Jones, Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri (Dirprwyo ar ran  
y Cyfarwyddwr);  
Sioned Rees, Llywodraeth Cymru;  
John R. Jones, Medrwn Môn;  
Y Cyng. Arwel Roberts (Dirprwyo ar ran Arweinydd Cyngor Sir  
Ynys Môn);  
Dilwyn Williams, Cyngor Gwynedd

**Yn bresennol:** Janet Roberts, Cyngor Gwynedd  
Llio Johnson, Cyngor Gwynedd  
Rhian Bayley-Hughes, Cyngor Gwynedd

## 1. YMDDIHEURIADAU

Y Cyng. Dyfed Edwards, Cyngor Gwynedd;  
Y Cyng. Ieuan Williams, Cyngor Sir Ynys Môn;  
Emyr Williams, Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri;  
Andrew Jones, Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr/Iechyd Cyhoeddus Cymru;  
Ian Rees, Grŵp Llandrillo Menai;  
Tim Jones, Cyfoeth Naturiol Cymru;  
Andy Jones, Gwasanaeth Prawf Cymru;  
Gareth Hall, Prosiect Ynys Ynni;  
Bethan Russell Williams, Mantell Gwynedd

## 2. ETHOL IS-GADEIRYDD BGLI

Er nad oedd ethol Is-gadeirydd yn rhan o'r rhaglen, derbyniwyd Geraint Hughes (GTAGC) fel enwebiad i rôl yr Is-gadeirydd.

### **PENDERFYNWYD:**

Cytunodd aelodau'r Bwrdd i dderbyn yr enwebiad am Is-gadeirydd a diolchwyd i Geraint Hughes (GTAGC) am dderbyn y rôl.

## 3. COFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWYD AR 26 MEHEFIN, 2015

Cadarnhawyd bod cofnodion cyfarfod y Bwrdd Gwasanaethau Lleol a gynhaliwyd ar 26 Mehefin, 2015 yn gofnod cywir o'r trafodaethau.

## 4. PROSIECTAU ISADEILEDD MAWR: Wylfa Newydd

Yn absenoldeb Gareth Hall (Prosiect Ynys Ynni), cafodd y Bwrdd ddiweddariad gan Llio Johnson ar y cynnydd hyd yma.

Nodwyd y pwyntiau isod:

- Bod y BGLI wedi cytuno 'mewn egwyddor' yn flaenorol i ymchwilio ymhellach i'r sgôp o fanteisio ar y gofyniad i Horizon sicrhau setiau data cyfredol a chynhwysfawr ar iechyd, diogelwch a llesiant cymunedol ac ati, fel tystiolaeth i gefnogi ei gais cynllunio ac i gynorthwyo gyda'r dasg o baratoi Cynllun Llesiant.
- Byddai cyfarfod yn cael ei alw ar gyfer mis Hydref 2015 ac yn cael ei fynychu gan gynrychiolwyr Horizon a dadansoddwyr o sefydliadau unigol i gynnal archwiliad o setiau data ac asesu eu perthnasedd a'u cyfredolrwydd ac i adnabod unrhyw fylchau.

### **PENDERFYNWYD:**

Llio Johnson i fynychu'r cyfarfod a nodwyd uchod a fyddai'n cael ei alw ar gyfer mis Hydref 2015.

## **5. BLAENORIAETHAU ALLWEDDOL Y BWRDD GWASANAETHAU LLEOL**

### **5.1 Prif Faes Blaenoriaeth 1 – Pobl Hŷn:**

- Nododd Ffion Johnson nad oedd hi wedi bod yn bosib i'r grŵp gyfarfod dros yr haf, fodd bynnag, roedd cyfarfod cynllunio ar y cyd wedi'i drefnu ar gyfer mis Hydref, 2015;
- Yn y cyfamser, roedd gwaith yn mynd rhagddo ar strategaeth pobl hŷn;
- Nododd Ffion y byddai'n cyflwyno dau gais newydd – un i fynd i'r afael â gwaith y Kings Fund a'r ail i weithio ar fodel newydd i integreiddio gweithwyr.

#### **PENDERFYNWYD:**

Ffion i anfon ffurflenni cais drafft at Llio Johnson.

### **5.3 Prif Faes Blaenoriaeth 2 – Creu Teuluoedd Gwydn:**

- Nododd Nigel Harrison bod tîm bychan wedi cael ei sefydlu i ddechrau gweithio ar yr ymarfer sgopio sydd ei angen er mwyn canfod beth yw'r ddarpariaeth gwasanaeth cyfredol ar draws Gwynedd ac Ynys Môn. Bydd yr ymarfer hefyd yn adnabod bylchau yn ogystal â risgiau presennol – a risgiau yn y dyfodol – gyda'r ddarpariaeth hon megis colled ariannol neu ad-drefnu oherwydd cyfyngiadau cyllidebol.
- Anfonwyd holiaduron dros e-bost at arweinydd bob asiantaeth, gyda gwaith dilynol fel bo'r angen;
- Yn dilyn yr ymarfer sgopio, bydd adroddiad drafft yn cael ei baratoi a'i gyflwyno i'r Bwrdd ar 11 Rhagfyr, 2015.

### **5.4 Prif Faes Blaenoriaeth 3 – Cymunedau Cynaliadwy / Adfywio Cymunedol**

- Darparwyd adroddiad cynnydd gan Dilwyn Williams a nododd ei fod wedi cael trafodaethau gyda phartneriaid allweddol er mwyn adnabod unigolion addas i arwain ar y prosiectau dan sylw a sicrhau cytundeb.
- Cynigiwyd y dylid sefydlu bwrdd prosiect fyddai'n cynnwys unigolion i arwain ar y prosiectau a ganlyn:
  - Rhannu asedau;
  - Cryfhau'r defnydd o'r iaith Gymraeg; a
  - Datblygu cymunedau gwydn
- Gwahoddwyd aelodau'r Bwrdd i ystyried unigolion addas i'w cynrychioli fel Uwch Ddefnyddwyr ar y tri Bwrdd prosiect.

## **PENDERFYNWYD:**

Penderfynwyd:

- Bydd Gwynne yn cynrychioli'r Bwrdd fel Uwch Ddefnyddiwr ar y 'Bwrdd Prosiect Rhannu Asedau'; bydd Walis yn cynrychioli'r Bwrdd fel Uwch Ddefnyddiwr ar 'Fwrdd Prosiect Cryfhau'r Defnydd o'r Iaith Gymraeg' a bydd Dilwyn yn cynrychioli'r Bwrdd fel Uwch Ddefnyddiwr ar y 'Bwrdd Prosiect Datblygu Cymunedau Gwydn'.
- Byrddau Prosiect i barhau â'r gwaith ac adrodd yn ôl i'r BGLI.

## **6. CYFLWYNIAD I'R BWRDD - DEDDF LLESIANT CENEDLAETHAU'R DYFODOL (CYMRU) 2015 – CANLLAWIAU STATUDOL**

Cafwyd cyflwyniad gan Llio Johnson ar ganllawiau statudol ar gyfer Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 – Cydamcanu: Cydymdrechu sydd allan ar ymgynghoriad ar hyn o bryd rhwng 7 Medi ac 16 Tachwedd, 2015.

Ceir isod grynodedb o'r pwyntiau allweddol amlwg:

- a. Nod Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) yw gwella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru, yn awr ac yn y dyfodol.
- b. Mae'r Ddeddf yn darparu pwrpas cyffredin wedi'i rwymo'n gyfreithiol a ffordd o weithio i hybu gweithgareddau cyrff cyhoeddus a bydd yn siapio eu gwaith cynllunio yn y dyfodol a'u trefniadau corfforaethol.
- c. Nod y Ddeddf yw sicrhau bod cyrff cyhoeddus yn cydnabod yr amryfal fuddion sydd ganddynt i'r holl amcanion llesiant yn ogystal â sut maent yn gweithio ar y cyd.
- d. Bydd angen i gyrff penodol sicrhau eu bod yn gwneud y cyfraniad gorau posib i wella llesiant Cymru drwy osod saith amcan llesiant.
- e. Dengys y saith amcan llesiant y math o Gymru yr ydym angen ei gweld. Gyda'i gilydd, maent yn darparu gweledigaeth ar y cyd i'r cyrff cyhoeddus a restrir yn y Ddeddf i ymgynghori ati. Casgliad o amcanion ydynt; noda'r Ddeddf yn glir bod raid i'r cyrff cyhoeddus gyflawni  pob  amcan, nid un neu ddau yn unig.
- f. Rhaid i Fwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus baratoi a chyhoeddi asesiad o gyflwr llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol yn ei ardal flwyddyn cyn iddo gyhoeddi cynllun llesiant lleol (i'w gyhoeddi o fewn 12 mis cyn etholiad cyffredinol llywodraeth leol).
- g. Rhaid i'r Awdurdod Lleol sicrhau bod yna gefnogaeth weinyddol ar gael i'r Bwrdd.
- h. Mae'r un cyfrifoldeb gan bob aelod i benderfynu sut i ddod o hyd i'r adnoddau angenrheidiol ar gyfer y swyddogaethau sydd angen eu cyflawni.

## **PENDERFYNWYD:**

Yn ystod y drafodaeth a gafwyd, cytunodd aelodau'r Bwrdd y dylent apelio i'r Gweinidog i sicrhau nad yw'n arwain at broses fiwrocraidd. Aelodau'r Bwrdd i

ymateb i gwestiynau'r ymgynghoriad ac anfon ymatebion at uned gefnogol BGLI, yna bydd ymatebion yn cael eu coladu fel y gall y Bwrdd ymateb ar y cyd.

## 7. STRWYTHUR YR UNED BARTNERIAETH

Darparodd Janet Roberts ddiweddariad ar faterion ynglŷn â'r Uned Bartneriaethau a nododd bod Prif Weithredwyr ac Arweinwyr y ddau awdurdod lleol wedi cyfarfod ddwywaith i drafod strwythur yr Uned Bartneriaeth gan nodi'r pwyntiau a ganlyn:

- Mae'r grŵp wedi cytuno ar gyllideb 15/16 ac wedi penderfynu ymestyn secondiad yr Uwch Reolwyr Partneriaeth hyd ddiwedd y flwyddyn ariannol bresennol;
- Mae'r grŵp wedi cytuno ar yr angen i ystyried strwythur y partneriaethau presennol o ran cefnogi a gweinyddu partneriaeth y BGLI;
- Gofynnwyd i Llio Johnson a Janet Roberts sgopio'r gwaith a'r adnoddau sydd eu hangen i gyflawni dros y 18 mis nesaf.
- Cytunir ar gyllideb 16/17 ar ôl cwblhau'r gwaith hwn.

### PENDERFYNWYD

- Cyflwynir diweddariad i'r BGLI ym mis Rhagfyr – bydd trydydd cyfarfod rhwng y ddau Awdurdod Lleol wedi cael ei drefnu erbyn hynny.

## 8. BLAEN RAGLEN WAITH BGLI (2015/2016)

Rhannwyd adroddiad blynyddol 2015/2016 drafft wedi'i ddiwygio gydag aelodau'r Bwrdd a nodwyd y pwyntiau a ganlyn:

- Yn sgil y ffaith y byddai Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru yn bresennol, bydd Ffion Johnstone yn rhoi cyflwyniad ar sut mae'r Bwrdd yn cefnogi anghenion y Comisiynydd.

### PENDERFYNWYD

- **Swyddog prosiectau lechyd a Llesiant yr Uned Bartneriaeth i gysylltu gyda Ffion Johnstone ynglŷn â pharatoi ar gyfer ymweliad y Comisiynydd Pobl Hŷn.**

## 9. DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF

**PENDERFYNWYD** nodi manylion y trefniadau a wnaed i gynnal cyfarfod nesaf y Bwrdd Gwasanaethau Lleol ar 11 Rhagfyr, 2015 yn yr Ystafell Seminar, Coleg Menai, Bangor, Gwynedd.

Daeth y cyfarfod i ben am 15.15pm.